


Tasg 2

Fy stryd i

1. Chwiliwch yn y darn am y geiriau Cymraeg am:

houses
gardens
streets
buildings
untidy

2. Pa ansoddeiriau (geiriau disgrifio) sy'n disgrifio'ch ardal chi?



3. Mewn grŵp, siaradwch am eich ardal chi.

Mae'r ardal yn ddiflas iawn achos does dim byd i wneud yma.

Dw i'n cytuno â ti achos ...

Dw i ddim yn cytuno â ti achos ...

Mae'r ardal yn gyffrous achos mae llawer o bethau i wneud yma.

4. Rydych chi'n mynd i drafod y cwestiynau yma mewn grŵp:

- Oes llawr o bethau i wneud yn yr ardal?
- Beth ydych chi'n hoffi am yr ardal?
- Beth dydych chi ddim yn hoffi am yr ardal?
- Sut hoffech chi wella'r ardal?

Cyn dechrau, gwnewch nodiadau.

Yna, trafodwch y cwestiynau.

Rhaid i bawb:

- ofyn ac ateb cwestiynau
- mynegi barn.

Mae help ar y dudalen nesaf.

Geirfa

dewis	(to) choose	fel	such as
-------	-------------	-----	---------

Hoffwn i gael sinema newydd yn y dref.

Hoffwn i weld mwy o bethau i bobl ifanc, fel ...

Dyma help ar gyfer y trafod:

Beth wyt ti'n feddwl?	What do you (sing.) think?
Beth ydych chi'n feddwl?	What do you (pl.) think?
Beth wyt ti'n feddwl o ...?	What do you (sing.) think of ...?
Beth ydych chi'n feddwl o ...?	What do you (pl.) think of?
Beth ydy dy farn di?	What's your (sing.) opinion?
Beth ydy'ch barn chi?	What's your (pl.) opinion?
Beth ydy dy farn di am ...?	What's your (sing.) opinion of ...?
Beth ydy'ch barn chi am ...?	What's your (pl.) opinion of ...?
Wyt ti'n cytuno?	Do you (sing.) agree?
Ydych chi'n cytuno?	Do you (pl.) agree?
Dw i'n cytuno achos ...	I agree because ...
Dw i ddim yn cytuno achos ...	I don't agree because ...
Dw i'n anghytuno achos ...	I disagree because ...
Beth am symud ymlaen?	What about moving on?
Beth am symud ymlaen i gwestiwn 2?	What about moving on to question 2?

Gwnewch nodiadau wrth i chi siarad.

5. Cymharwch eich syniadau fel dosbarth.